Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Sona Care**

**27 Hilton Avenue**
**Aberdaugleddau**
**SA73 2PB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/07/2024

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Sona Care

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Sona Care |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Mehefin 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Dywedodd y bobl eu bod yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel iawn yng nghwmni eu gweithwyr gofal sy'n ymweld â nhw yn eu cartrefi bob dydd. Dywedodd y bobl a'u teuluoedd/cynrychiolwyr eu bod yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn trafodaethau am eu gofal a'u cymorth, ond mae diffyg dogfennaeth i gefnogi hyn ar hyn o bryd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r tîm o staff yn trin pob person gydag urddas a pharch ac yn sicrhau bod eu lles wrth wraidd popeth y maent yn ei wneud. Nid yw pob gweithiwr gofal wedi ymgymryd â hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau ond dywedodd y gweithwyr gofal eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli. Gwneir atgyfeiriadau prydlon at weithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fo angen, ac mae'r rheolwr, sydd hefyd yn gweithredu fel yr Unigolyn Cyfrifol, ar gael yn rheolaidd i'r bobl, eu perthnasau ac i'r tîm o staff.

## Llesiant

Mae'r gweithwyr gofal yn cymryd amser i wrando ar bobl ynghylch eu trefniadau cymorth. Maent yn ystyried pwysigrwydd llesiant cyffredinol pob unigolyn mewn modd sensitif. Dywedodd un perthynas wrthym, *“The carers are lovely, they go above and beyond.”* Dywedodd person arall, *“They’re always on time for me, which is important.”* Dywedodd y bobl a'u perthnasau fod y staff yn gofyn iddynt am eu bywydau pan fyddant yn cyrraedd y gwasanaeth i ddechrau a'u bod yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y broses o adolygu eu cynlluniau cymorth os byddant yn dymuno gwneud hynny. Dywedodd un person wrthym, *“Oh yes, they ask us what we think of the carers, if everything is going as it should be.”*

Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Er nad oedd galw am gymorth o ran siaradwyr Cymraeg yn unig ar hyn o bryd, mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cytuno y byddai angen darparu Cynnig Rhagweithiol pe bai yn cefnogi rhywun y byddai'n well ganddo gyfathrebu yn Gymraeg. Mae'r dirprwy reolwr yn siarad Cymraeg yn rhugl a byddai ar gael pe bai unigolyn yn dymuno cynnal sgyrsiau yn Gymraeg.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Chymorth

Mae'r rheolwr/Unigolyn Cyfrifol yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth er mwyn sicrhau y gall ddiwallu anghenion y bobl cyn rhoi eu trefniadau cymorth ar waith. Er enghraifft, gwybodaeth gan weithwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol fel therapyddion galwedigaethol neu weithwyr cymdeithasol. O hyn, mae uwch-aelodau o'r staff yn datblygu cofnodion gofal sy'n disgrifio gofynion cymorth y bobl yn gywir ac maent yn gwneud atgyfeiriadau prydlon at weithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fo angen. Mae adolygiadau rheolaidd o'r cynlluniau gofal yn gwerthuso'r hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd angen ei addasu yn y dyfodol, os oes unrhyw beth.

Mae'r tîm o staff yn sicrhau y gall ddarparu'r gofal gorau posibl i'r bobl — gallant gael gafael ar gofnodion gofal ac asesiadau risg cyfredol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi fel y dylent gael eu cefnogi. Mae'r bobl a'u perthnasau yn cytuno â hyn a dywedwyd wrthym eu bod yn hapus iawn gyda'r tîm o staff sy'n ymweld â nhw bob dydd. Dywedodd un person, *“They are just wonderful, can’t do enough for you. They often stay on for a chat when they can and my dog adores them.”*

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac yn hyderus i'w defnyddio pe bai angen. Maent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddiant diogelu a gwnaethant ddweud wrthym fod yr uwch-aelodau o staff yn eu cefnogi'n dda a'u bod ar gael bob amser i roi cyngor os bydd angen. Byddent yn siarad â'r rheolwr/Unigolyn Cyfrifol, ond byddent yn cysylltu ag asiantaethau allanol, fel y swyddfa ddiogelu leol, pe byddent o'r farn bod angen gwneud hynny. At hynny, mae gan y rheolwr/Unigolyn Cyfrifol bolisïau a gweithdrefnau cyfredol i gefnogi'r bobl a'r tîm o staff.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r darparwr yn sicrhau bod gweithwyr gofal gwybodus, gofalgar a medrus ar gael i ddarparu'r cymorth cywir i'r bobl. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio: mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, esboniadau o unrhyw fylchau yn hanes cyflogaeth y bobl a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ar y cyfan, mae gan y darparwr weledigaeth glir o'r gwasanaeth y dylai'r bobl ei gael. Mae diwylliant cadarnhaol ym mhob rhan o'r gwasanaeth, wedi'i lywio gan reolwr/Unigolyn Cyfrifol sydd am gynnal ansawdd bywyd y bobl. Mae'r rheolwr/Unigolyn Cyfrifol yn gyfarwydd i bawb ac maent yn monitro ansawdd y gwasanaeth a gynigir i'r bobl mewn adroddiadau ar ansawdd y gofal a thrwy gynnal gwiriadau rheolaidd. Dywedodd y bobl nad yw eu gweithwyr gofal fyth yn hwyr a'u bod yn gallu cysylltu â'r swyddfa pan fydd cwestiwn ganddynt. Dywedodd un person, *“They always let me know what’s going on.”* Gwelsom gofnodion monitro pecynnau gofal y bobl er mwyn sicrhau bod y galwadau yn cael eu cynnal ar amser. At hynny, cadarnhaodd y bobl a'u perthnasau fod y rheolwr/Unigolyn Cyfrifol yn gofyn iddynt am adborth ar y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu, ond nid oes unrhyw dystiolaeth bod hyn yn mynd rhagddo yn y cofnodion gofal a welsom. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Gall gweithwyr drafod unrhyw faterion y maent am eu codi yn ystod cyfarfodydd goruchwylio cyfrinachol a gynhelir bob tri mis.  Fodd bynnag, dengys y cofnodion a welsom nad yw pob un o'r gweithwyr gofal wedi cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf. Mae hwn yn fater sydd wedi cael ei nodi gan y rheolwr/Unigolyn Cyfrifol yn ystod ymweliadau monitro ansawdd ac mae cynlluniau ar waith i addasu sesiynau hyfforddiant y dyfodol i gynnwys mwy o hyfforddiant wyneb yn wyneb gan ei bod yn anodd trefnu sesiynau ar-lein ar hyn o bryd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Cyhyd ag y bo'n bosibl, mae'r darparwr yn cymryd camau priodol i ddiogelu'r bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth.  Mae'r tîm o staff yn sicrhau eu bod yn diogelu unrhyw wybodaeth breifat a phersonol. Mae'r gweithwyr gofal wedi bod drwy broses recriwtio drylwyr y darparwr. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r gweithwyr, er mwyn iddynt ddeall eu cyfrifoldeb i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Mae polisi a gweithdrefn diogelu'r cartref yn unol â deddfwriaeth gyfredol a gweithdrefnau diogelu lleol. Mae uwch-aelodau o'r staff yn sicrhau bod yr holl gofnodion gofal yn nodi unrhyw risgiau i lesiant y bobl yn glir, ac mae'r cynlluniau rheoli risg manwl yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel ac mor annibynnol â phosibl.

| **Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio** | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| **Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 16 | Mae'r cofnodion gofal yn cael eu hadolygu, ond nid oes unrhyw dystiolaeth o gyfraniad y bobl/eu cynrychiolwyr (taflenni adolygu, arwyddion ac ati), ond dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, felly mae'n fater sy'n ymwneud â'r broses o gynnal y ddogfennaeth. Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn cyflwyno dogfennaeth i ddangos tystiolaeth bod hyn yn digwydd. | Newydd |
| 36 | Mae cofnodion yn dangos nad yw pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi nodi'r mater hwn yn yr adroddiadau sicrhau ansawdd ac yn cynllunio mwy o sesiynau | Newydd |
| 80 | Nid yw'r darparwr wedi cwblhau'r adroddiadau gofynnol ar ansawdd y gofal. Felly, ni allem fod yn sicr, ac nid oedd tystiolaeth ar gael bod y darparwr yn rhoi ystyriaeth briodol i ganlyniadau unrhyw archwiliadau nac yn sicrhau bod cofnodion wedi'u cwblhau. Nid oedd dadansoddiad ar gael o'r data nac atgyfeiriadau diogelu, hyfforddiant y staff, asesiadau o'r gofal a'r cymorth cyffredinol a ddarperir i'r bobl gan y gwasanaeth na'r ddarpariaeth o wybodaeth i gefnogi cyfraniad y bobl at asesiadau ac adolygiadau. Ni all y bobl fod yn hyderus bod systemau ar waith i sicrhau eu bod yn cael y cyfle i gyflawni eu canlyniadau llesiant yn llawn. Heb adolygiad manwl o'r gwasanaeth, ni all yr Unigolyn Cyfrifol wneud argymhellion ystyrlon na chymryd camau i helpu i wella'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol | Cyflawnwyd |
| 35 | Nid yw'r darparwr wedi cynnal y gwiriadau angenrheidiol i sicrhau bod proses recriwtio gadarn ar waith. Nid oedd y cofnodion recriwtio y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol, ac nid oedd ffeiliau'r staff yn cynnwys dau eirda na'u ffurflen gais. | Cyflawnwyd |
| 23 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod unigolion yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan mewn asesiadau, cynlluniau na phenderfyniadau o ddydd i ddydd am y ffordd y darperir gofal a chymorth iddynt a'r ffordd y cânt eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. | Cyflawnwyd |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| | | |
|---|---|---|
| 12 | Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod cynnwys y polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol iddynt fod ar waith drwy rinwedd paragraffau (1) i (3) yn cael eu diweddaru a'u hadolygu, a'u bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol. | Cyflawnwyd |
| 16 | Rhaid i'r cynlluniau personol gael eu hadolygu pan fo angen, ond o leiaf bob 3 mis. Gwnaethom edrych ar y ffeiliau gofal ac ni welsom unrhyw gofnod o adolygiadau ynddynt. | Cyflawnwyd |

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi